Ffin

Hilma Ll. Edwards

Gam wrth gam mae'r Arctig gwyn yn llithro

yn llathraidd i'r dibyn

ei farw ym mhob diferyn

a'r llif yn cymylu'r llun.

Eiddilwch y clawdd olaf yn y gaer

ar y gorwel eithaf,

ar eu hynt, pelydrau'r haf

a gywain ffrwythau'r gaeaf.

Eirth blin hyd y ffin yn ffoi

o'u hirlwm gwag o forloi,

a'u cnul am esgyrn i'w cnoi

ar haenen o rew tenau, yna ffrae

am gig ffres yn cynnau,

a phrin y daw i'w ffroenau

awr â'i sawr yn agosáu.

A saif y brenhinoedd syn heno'n daer

ar diroedd y dibyn,

i wylio'u teyrnas laswyn

yn meinhau'n y mannau hyn.

Yno, ymysg y tonnau y mae'r iâ

mor wan â chanhwyllau,

haenen o afrlladennau

yn y gwyll drwy'r llanw'n gwau.

Ei foroedd o ddiferion yn darnio

cadernid brodorion

ddeil eu tir drwy ddilyw ton,

arwriaeth y gororion.

Un iasol o ynysig ydyw'r braw

ar dir brau yr Arctig;

crafanc tranc a ddwyn i'w trig

aflwydd hen gylch dieflig.

Aros dan leuad arian ei golau

ac wylo galargan,

herio maent drwy'r oriau mân

dic toc y cloc yn clecian ...

Troi Tir

Sioned Haf

Dynodaf ddydd i arddio.

Dydd i rwygo gwreiddiau sy'n gwlwm tynn dan bridd clau.

Cwlwm o wreiddiau hen denantiaid.

Ni - y dyfodiaid newydd, mynnwn siapio'r ardd, ei haredig.

Y weledigaeth?

Trefnu, aildrefnu. Dechrau o'r newydd.

Rhwygwn yr iorwg sy'n bleth dros furiau'r ardd,

Fel rhwygo brethyn o ysgwydd – yn diarddel etifedd gwyrdd,

Datguddiwn yn ei le, bridd noeth.

Trwy droi cnawd y noethni newydd hwn,

Daw bywyd tanddaearol i'r arwyneb i wingo.

Mwydod, nadroedd miltroed, chwilod,

Yn gwingo ymysg y clai a'r gwreiddiau.

Y tenantiaid cyson - a'u byd wyneb i waered.

Teimlaf euogrwydd yn araf gloddio

Wrth i'm rhaw dorri tir a byd y creaduriaid cudd.

Erydaf gynefin mewn eiliad, a chwalu sicrwydd cartref,

Yn sicr taw'r ad-drefnu sydd gywir,

A gwell fydd y system newydd.

Plyciaf y gwythiennau - y gwreiddiau,

A gyda'r rhaca, rwy'n cribo'r pridd, ei dwtio a'i fwytho.

Taclusrwydd cyn bo'r haul yn suddo.

***

Trannoeth edrychaf dros fy nhiriogaeth dwt,

Yn gorff taclus, di-wraidd - yn llonydd.

Ac wrth oruchwylio'r byd cywrain hwn,

Gwelaf gyrff mwydod a chwilod yn gelain,

Yn sych fel gwreiddiau ar groen pridd,

Dan ddifaterwch gwres y bore.

Bu'r dydd o arddio'n drech arnynt.

Oedfa fer sydd i bob garddwr.

Ac i bob cynefin hefyd.

Dwyn ana'l

Martin Huws

Dewch draw a mwynhewch,

medd y daflen sy'n melynu,

y golygfeydd sy'n dwyn ana'l.

Hesb oedd yr awel yn Sbaen

pan drodd coed yn goelcerth,

pan ledodd fflamau ger Salamanca

am fod y gwynt wedi ei ollwng o'i dennyn.

Trodd gwenau llawen lluniau Polaroid

yn llwch.

Doedd dim pwynt hala carden.

Dewch draw a mwynhewch,

medd y daflen fregus rhwng bysedd,

brofiad bythgofiadwy.

Yn Phnom Penh

cododd ton ei phen yn anghenfil.

Diwreiddiwyd gwareiddiad,

tynnwyd coed cadarn

gerfydd eu gwar

a'u taflu'n dusw o flodau

ar ben toeon.

Dwy droedfedd arall

a bydden ni dros y dibyn.

Doedd dim pwynt hala carden.

Dewch a mwynhewch,

medd y daflen anodd ei darllen

yn hanner gwyll prynhawn sy'n llusgo, yn llesgáu,

olygfa sy'n wledd i lygad.

Y campau d?r ym Mae Atacames

yw'r môr yn erydu'r arfordir,

damaid wrth damaid,

yn gwledda heb gael ei wala,

ei wanc am draflyncu'r tywod,

y graig yn groen ac asgwrn

a'r hanner cylch euraidd yn llinyn truenus

mor denau â rhaff grogi.

Y ni yw'r teithwyr talog

heb gydnabod ein bod yn darnio cyfanfyd,

y pererinion pur o galon a gollodd gyfeiriad.

Fe chwalon ni'r ffordd i'r Ddinas Sanctaidd.